

Canllawiau i Reolwyr - Cadw Cyswllt Gyda Staff wrth Weithio o Bell

Wrth weithio o bell mae amserlennu amseroedd ar gyfer yn hanfodol, ar lefel unigolion ac i'r tîm cyfan. Maent yn hwyluso'r cyfle i;

- Cadw cysylltiad, gan frwydro yn erbyn teimladau o unigedd ac unigrwydd;
- Cynnal ymgysylltiad, trwy ddangos ac adeiladu ymddiriedaeth, cynnal perthnasoedd gwaith effeithiol, a rhoi cydnabyddiaeth;
- Cyfathrebu, trafod adroddiadau cynnydd, gwaith diweddar a newidiadau mewn blaenoriaethau.

Dogfen yw hon sy'n cynnig canllaw, nid oes rhaid ei ddefnyddio yn llythrennol. Er engraifft, mewn rhai sefyllfaoedd gall cadw mewn cyswllt dyddiol fod yn addas ond mewn sefyllfaoedd eraill gall cyswllt wythnosol for yn dderbyniol.

Nid oes angen i gyfarfod cadw cyswllt fod yn hir, ac mewn gwirionedd mae ychydig yn aml yn well. Wrth weithio o bell mae'n syniad da meddwl am ddull a chytuno arno ymlaen llaw (galwad ffôn / fideo) a sefydlu a chadw at drefn lle bynnag y bo modd. Meddyliwch am yr enghreifftiau canlynol a sut y gallai rhywbeth tebyg i hyn weithio i'ch tîm:

- 10 @ 10 – 10 munud bob dydd i'r tîm gysylltu gyda'i gilydd
- Amserlenni cysylltiad 1 i 1 (Ystyriwch amllder e.e. : dyddiol / wythnosol / dechrau'r dydd / diwedd y dydd)
- Sesiynau datblygu a thrafod ar y cyd yn defnyddio teams neu Skype
- Amserlenni cyfleoedd cymell 1 i 1 arlein
- Anogwch eich tîm i 'sgwrsio' ymysg ei gilydd (os yw hyn yn rhywbeth y byddent fel arfer yn ei wneud pe byddent yn gweithio o'r swyddfa).
- Nid oes angen cadw nodiadau / munudau ac ati o sgysiau cyswllt o reidrwydd ond gallwch chi neu aelod o'ch tîm os ydyn nhw eisiau.
- Yn y pen draw, mae'r cadw cyswllt er lles pawb a gall staff siarad am brosiectau gwaith a / neu les personol os y dymunant.

Sut i ddechrau eich *Sgyrsiau Cadw Cyswllt*:

- Sut mae pethau'n mynd? Dywedwch wrthyf beth rydych chi'n gweithio arno?
- Pa mor hapus ydych chi'n teimlo am bethau ar hyn o bryd?
- Sut ydych chi'n ymdopi gyda gweithio gartref?
- A oes angen i ni newid neu addasu unrhyw un o'n blaenoriaethau gwaith?
- Dyma'r hyn a aeth yn dda yr wythnos hon yn fy marn i ...
- Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf am y tîm yn fyr ...